

GWLAD Y GÂN YN DOD I'R DREF

Bydd Cyngor Tref y Rhyl yn chwifio'r faner ar Ddydd Gŵyl Dewi.

Bydd ymwelwyr â'r Rhyl yn cael croeso gwahanol yng ngorsafoedd bws a thrên y dref ar Fawrth 1.

Bydd côr yn perfformio ar gyfer y teithwyr, a fydd hefyd yn derbyn baner Cymru.

Meddai Maer y Rhyl, y Cynghorydd Sarah Roberts: "Yr un peth y mae pobl sy'n dod i'r Rhyl yn sicr o'i gael yw croeso cynnes.

"Mae Cymru'n enwog fel gwlad y gân, felly pa well ffordd o groesawu ymwelwyr na chydâ chân dda a baner i'w chwifio. Gobeithiwn y bydd y digwyddiad hwn, gan Gyngor Tref y Rhyl, yn codi gwên i deithwyr ar ddydd Gŵyl Dewi."

Bydd Côr Cymunedol Ghostbuskers yn ymuno â chyngor y dref. Mae'r côr yn cynnwys aelodau o'r Rhyl ac roedd yn llwyddiant mawr pan chwaraesant yn y dref dros y Nadolig.

Byddant yn cyfarfod â'r teithwyr y tu allan i'r orsaf drenau rhwng 9am ac 11am ar ddydd Gŵyl Dewi.

Diwedd

